GREEN GEN CYMRU

GREEN GEN CYMRU

Protocol Mynediad Arolwg

Tachwedd 2026

POWERING
A POSITIVE
ENERGY FUTURE
FOR WALES

greengencymru.com

TABL CYNNWYS

1.0 Cyflwyniad 3

2.0 Gweithdrefn Cyn Defnyddio Pwerau Statudol 4

3.0 Cymeradwyo Defnyddio Gweithdrefn Pwerau Statudol 5

3.1 – Cyfiawnhad dros arolygon 5

3.2 – Manylion ymdrechion i gael mynediad gwirfoddol 5

3.3 – Sicrhau ansawdd gwybodaeth derbynwyr a pharatoi'r hysbysiad 6

3.5 – Awdurdodi mewn egwyddor a dirprwyo arfer y pŵer mynediad 7

4.0 Cyflwyno Hysbysiad 8

5.0 Cyn Mynediad 9

6.0 Dogfennau ac Offer i'w Dal ar y Safle 11

7.0 Ymddygiad ar y Safle 11

8.0 Cadw Cofnodion 13

9.0 Rhwystro Mynediad 14

10.0 Gweithdrefn Gwarant 14

11.0 Gweithdrefn Hawliadau 15

12.0 Cwynion 15

1.0 Cyflwyniad

1.1) Diben y ddogfen hon yw nodi safonau a gweithdrefnau i Green Gen Cymru a'i gontractwyr awdurdodedig eu dilyn cyn ac wrth ddefnyddio pwerau mynediad o dan adran 172 o Ddeddf Tai a Chynllunio 2016 (y Ddeddf). Bwriad y safon hon yw sicrhau cysondeb ar draws y busnes a darparu mwy o eglurder i'r rhai sy'n gweithredu o dan yr hysbysiadau statudol ac i'r rhai yr effeithir arnynt ganddynt. Mae'r broses hon yn ymwneud yn unig ag arfer pwerau adran 172. Dylai Rheolwyr Tir sicrhau cydymffurfiaeth â thelerau trwydded lle maent wedi'u cytuno fel arall.

1.2) Dylid ystyried y protocol hwn ochr yn ochr â'r gofynion penodol o dan y Ddeddf a pholisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill Green Gen Cymru. Nid yw'r gweithdrefnau hyn yn ymwneud â mynediad i unrhyw safle a ddefnyddir fel annedd breifat.

1.3) O fewn y Weithdrefn hon, mae gan y geiriau a'r ymadroddion canlynol yr ystyron canlynol:

a) "**Contractwyr Awdurdodedig**" yw'r cyflenwyr sydd wedi'u contractio i GGC ac y mae'n eu hawdurdodi i gael mynediad i dir at y dibenion a nodir o dan hysbysiad adran 174
b) "**GGC**" yw Green Generation Energy Networks Cymru Limited
c) "**Asiant Tir**" yw'r asiantaeth dir a benodir i weithredu ar ran GGC mewn perthynas â'r prosiect perthnasol
d) "**Rheolwr Tir**" yw'r rheolwr tir sy'n gyfrifol am y prosiect perthnasol, ac sy'n cael ei gyflogi gan Green Gen Cymru

2.0 Gweithdrefn Cyn Defnyddio Pwerau Statudol



3.0 Cymeradwyo Defnyddio Gweithdrefn Pwerau Statudol

3.1) Os bydd y broses uchod wedi'i chwblhau heb sicrhau caniatâd, efallai y bydd angen ystyried cyflwyno hysbysiad adran 172 ar gyfer pwerau mynediad. Cyn cyflwyno'r hysbysiad, mae angen ystyried a chymeradwyo'r canlynol:

3.1 – Cyfiawnhad dros arolygon

3.1.1) Cadarnhad a chymeradwyaeth o restr lawn o arolygon, gan gynnwys methodoleg fer ac amseru pob arolwg. Bydd rhestr o'r arolygon a gadarnhawyd ac a gymeradwywyd yn cael ei hatodi i'r hysbysiad arfaethedig. Rhaid i gyfiawnhad a chydnabyddiaeth o'r canlyniadau posibl os na chaiff yr arolygon eu cwblhau gael eu llofnodi a'u cwblhau gan:

1. Ymgynghorydd AEA mewn perthynas ag arolygon amgylcheddol (os yn briodol)
2. Ymgynghorydd FEED mewn perthynas ag arolygon peirianneg (os yn briodol)

3.2 – Manylion ymdrechion i gael mynediad gwirfoddol

3.2.1) Mae'n bwysig bod ymdrechion rhesymol wedi'u gwneud i gyrraedd cytundeb gwirfoddol ar gyfer mynediad arolwg. Mae'r siart llif uchod yn nodi'r safon gyffredinol y bydd GGC yn ei defnyddio i benderfynu a yw ymdrechion rhesymol wedi'u gwneud i gytuno ar fynediad gwirfoddol mewn achosion lle nad oes ymateb neu lle nad oes ymdrech resymol gan y parti arall i negodi mewn ewyllys da o fewn amserlen resymol sy'n cyd-fynd â rhaglen y prosiect.

3.2.2) Yn y pen draw, penderfyniad y Rheolwr Tir perthnasol yw a yw GGC wedi gwneud ymdrechion rhesymol i negodi, yn enwedig pan fo trafodaethau trwydded yn digwydd, gan gael ei lywio gan drafodaethau gydag Asiantau Tir y prosiect.

3.2.3) Gall hefyd fod amgylchiadau lle nad yw'n ymarferol o fewn rhaglen gyffredinol y prosiect i gwblhau pob cam yn llawn o fewn y broses "tri llythyr" a amlinellir uchod. Ym mhob achos o'r fath, bydd yn gyfrifoldeb ar Reolwr Tir y prosiect, wedi'i lywio gan drafodaethau gydag Asiantau Tir y prosiect, i ddod i benderfyniad ynghylch a yw ymdrechion rhesymol wedi'u gwneud i negodi mynediad cyn awdurdodi cyflwyno hysbysiadau statudol.

3.2.4) Ni ddylid ystyried cyflwyno hysbysiadau statudol fel diwedd ar drafodaethau; dylid parhau â'r trafodaethau hyn ochr yn ochr ag arfer pwerau statudol.

3.3 – Sicrhau ansawdd gwybodaeth derbynwyr a pharatoi'r hysbysiad

3.3.1) Bydd Asiantau Tir y prosiect yn gyfrifol am gynnal yr ymholiadau angenrheidiol gan ddefnyddio gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus ac drwy wneud ymholiadau uniongyrchol ynghylch natur y buddiannau yn y tir a'u perchnogion, yn ogystal â gwybodaeth am y deiliaid sy'n meddiannu'r tir hwnnw.

3.3.2) Yn ogystal ag adnabod perchnogion a deiliaid y tir perthnasol yn y modd hwn, bydd yr Asiantau Tir hefyd yn gyfrifol am nodi a yw unrhyw ran o'r tir yn ddarostyngedig i'r weithdrefn awdurdodi uwch a nodir yn adran 175 o Ddeddf Tai a Chynllunio 2016.

3.3.3) Mae angen casglu'r wybodaeth hon er mwyn gallu ymgysylltu'n effeithiol â pherchnogion a deiliaid tir ac, maes o law, i gydymffurfio â gofynion y broses gynllunio. Bydd hefyd ei hangen i gefnogi trafodaethau ar gyfer caffael buddiannau perthnasol yn y tir ac i gydymffurfio â'r gweithdrefnau ar gyfer ceisio awdurdodi pwerau caffael gorfodol.

3.3.4) Bydd yn ofynnol i'r cyflenwr cyfreithiol ar gyfer y prosiect adolygu sampl o'r wybodaeth a gasglwyd at ddibenion cyflwyno hysbysiadau statudol ac adolygu ffurf yr hysbysiad arfaethedig. Bydd cwmpas yr adolygiad hwnnw yn cael ei gytuno rhwng y cyflenwr cyfreithiol a'r Rheolwr Tir.

3.3.5) Bydd yn ofynnol i'r Contractwyr Awdurdodedig nodi'r arolygon y mae angen eu cynnal, ynghyd ag esboniad byr o'r rhesymau pam y mae'r arolygon hynny'n ofynnol er mwyn cael cytundeb y Rheolwr Tir, a darparu manylion yr arolygon hynny yn unol â gofynion adran 174 o'r Ddeddf i'w cynnwys yn yr hysbysiad statudol. Lle bo angen cynnal arolygon o'r fath y tu allan i oriau 07:00–19:00, neu ar benwythnosau neu Wyliau Banc, rhaid rhoi gwybod yn benodol am y gofyniad hwn ymlaen llaw i'r Rheolwr Tir ac i'r cyflenwr cyfreithiol penodedig, fel y gellir ei ystyried yn briodol a'i adlewyrchu yn yr hysbysiad statudol perthnasol drwy hysbysu perchnogion a deiliaid tir y gall fod angen cynnal rhai arolygon y tu allan i oriau gwaith arferol.

3.4 – Asesiad Effaith Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

3.4.1) Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb (EqIA) wedi'i gynnal gan GGC sy'n rhoi sylw i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus wrth arfer ei bwerau statudol i arolygu tir. Rhaid i'r Rheolwr Tir adolygu'r EqIA ac, wedi'i lywio gan drafodaethau gyda'r Asiantau Tir penodedig ac unrhyw Swyddog Cyswllt Bregusrwydd perthnasol GGC (gweler "Protocol Person Bregus" GGC) a chan ystyried unrhyw adborth ymgynghori a gafwyd hyd yma ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill, ystyried a yw casgliadau'r EqIA yn parhau i fod yn ddilys.

3.4.2) Os oes sail resymol i ystyried y byddai'r defnydd arfaethedig o bwerau statudol i gynnal arolygon yn arwain at effeithiau anghymesur neu effeithiau gwahaniaethol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig nad oeddent wedi'u hystyried yn flaenorol yn yr EqIA, yna dylid cynnal EqIA pellach neu un wedi'i ddiweddaru.

3.4.3) Gall fod yn wir bod arfer pwerau statudol i gynnal arolygon yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Hawliau Dynol 1998. Bwriedir i'r gweithdrefnau a nodir yn y ddogfen hon sicrhau bod y pwerau hynny'n cael eu harfer mewn modd cymesur, gan roi sylw i hawliau dynol perchnogion a deiliaid.

3.5 – Awdurdodi mewn egwyddor a dirprwyo arfer y pŵer mynediad

3.5.1) Pan fydd y pedwar pwynt cyntaf yn y rhestr uchod wedi'u cwblhau, rhaid i'r rolau GGC canlynol lofnodi "Ffurflen Awdurdodi Adran 172" i gadarnhau eu cymeradwyaeth i'r cais i ddefnyddio pwerau mynediad:

1. Rheolwr Tir
2. Uwch Reolwr Tir
3. Uwch Reolwr Prosiect
4. Rheolwr Materion Allanol
5. Cyfarwyddwr Prosiect

3.5.2) Unwaith y bydd y ffurflen awdurdodi wedi'i chwblhau, dirprwyir awdurdod i Reolwr Tir Green GEN i oruchwylio'r defnydd dilynol, neu'r diffyg defnydd, o'r pŵer statudol.

3.5.3) Wrth arfer y dirprwyaeth hon, dylai'r Rheolwr Tir roi sylw i gwmpas yr awdurdodiad mewn egwyddor ac, os oes unrhyw newidiadau sylweddol yn yr amgylchiadau, cysylltu â'r deiliaid swydd o fewn GGC a grybwyllwyd uchod er mwyn penderfynu a fyddai'n briodol adolygu'r penderfyniad i ddirprwyo yng ngoleuni'r amgylchiadau hynny. Dylid cadw cofnodion o drafodaethau o'r fath a'u canlyniadau.

3.5.4) Dylai'r Rheolwr Tir sy'n arfer yr awdurdod dirprwyedig gofio y gall perchnogaeth a meddiant tir newid dros amser, a dylai weithio gyda'r Asiantau Tir penodedig a'r cyflenwr cyfreithiol i sicrhau bod gwybodaeth gyfredol yn cael ei defnyddio. Ni fydd newid yn unig yn hunaniaeth perchennog neu ddeiliad tir y mae awdurdodiad mewn egwyddor yn berthnasol iddo o reidrwydd yn rheswm dros ofyn am awdurdodiad mewn egwyddor pellach neu wedi'i ddiweddaru, ar yr amod bod y Rheolwr Tir yn fodlon bod holl ofynion eraill y polisi hwn wedi'u bodloni (yn enwedig o ran cyfiawnhad dros yr arolygon a bod ymdrechion rhesymol wedi'u gwneud i negodi mynediad). Fodd bynnag, os oes angen arolygu tir newydd nad oedd yn destun awdurdodiad mewn

egwyddor o'r blaen, dylai'r Rheolwr Tir geisio awdurdod dirprwyedig newydd yn unol â'r polisi hwn.

4.0 Cyflwyno Hysbysiad

4.1) Cyn cyflwyno hysbysiad, mae'n bwysig bod y parti sy'n gyfrifol am ei gyflwyno yn croesgyfeirio gofynion perthnasol y Ddeddf â'r hysbysiadau. Yn ogystal, mae Cod Ymarfer y Swyddfa Gartref "Powers of Entry", Rhagfyr 2014 (y Cod), yn argymell cynnwys y wybodaeth ganlynol:

1. A fydd y mynediad yn cael ei gynnal gyda neu heb warant
2. Y pwerau mynediad a'r pwerau cysylltiedig a ddefnyddir
3. Hawliau'r deiliad
4. Unrhyw weithdrefnau iawndal neu gwynion sy'n bodoli
5. Ble y gellir cael copi o'r Cod Ymarfer hwn

Dylai'r llythyr eglurhaol sy'n cyd-fynd â'r hysbysiad roi sylw i'r materion uchod a dylid hefyd ymholi ynghylch a yw:

1. Oes angen cymryd unrhyw fesurau neu ragofalon penodol wrth gael mynediad i'r tir;-
2. Oes unrhyw faterion neu ofynion sy'n ymwneud â'r tir a allai fel arall effeithio ar gynnal yr arolygon arfaethedig, neu y gallai cynnal yr arolygon hynny effeithio arnynt, neu yr hoffai'r derbynnydd i Green GEN a'i Gontractwyr Awdurdodedig roi sylw iddynt wrth gael mynediad i'r tir a chynnal yr arolygon.

4.2) Wrth weithio gyda'r cyflenwr cyfreithiol, dylai'r Rheolwr Tir hefyd sicrhau bod pob hysbysiad yn cynnwys dyddiad priodol y daw'r hysbysiad i ben. Wrth benderfynu ar y dyddiad dod i ben, dylai'r Rheolwr Tir gadw mewn cof ei bod yn bosibl cyflwyno hysbysiad dilynol yn unol â'r polisi hwn, pe bai angen cynnal arolygon ar ôl y dyddiad dod i ben.

4.3) Mae angen cymryd gofal arbennig lle y bwriedir cynnal arolygon ymwthiol. At ddibenion y polisi hwn, ystyrir bod 'arolygon ymwthiol' yn arolygon sy'n cynnwys gwaith sylweddol ar y tir, a gynhelir ar dir am gyfnod sy'n hwy na 24 awr, ac a allai, o ganlyniad, olygu bod perchennog neu feddiannydd yn cael ei amddifadu dros dro o'i ddefnydd a'i fwynhad o'r tir am gyfnod yr arolygon. Mae enghreifftiau o arolygon ymwthiol yn cynnwys (i) monitro tyllau turio, (ii) ymchwiliadau tir sy'n cynnwys cloddio ffosydd prawf, a (iii) ymchwiliadau archeolegol sy'n cynnwys cloddio ffosydd. Nid yw defnyddio augers llaw yn gyfystyr ag arolwg ymwthiol at ddibenion y polisi hwn.

4.4) O ystyried y gall arolygon ymwthiol, oherwydd eu natur, gael effaith fwy sylweddol ar ddefnydd perchnogion a meddianwyr o'u tir, dylai'r Rheolwr Tir weithio'n agos gyda'r Tîm Prosiect er mwyn cynnwys yn yr hysbysiad gymaint o wybodaeth ag sy'n rhesymol ymarferol ynghylch natur, hyd a graddfa'r gweithgaredd arolygu arfaethedig.

5.0 Cyn Mynediad

5.1) Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol rhoi o leiaf 14 diwrnod o rybudd i bob perchennog a deiliad y tir i'w arolygu cyn y diwrnod cyntaf y mae'r awdurdod yn bwriadu mynd i mewn i'r tir o dan y pŵer a roddir gan y Ddeddf.

5.2) Mae natur yr arolygon sydd eu hangen mewn cysylltiad â hyrwyddo prosiectau cysylltiad grid yn golygu bod anawsterau ymarferol sylweddol ynghlwm wrth ddarparu amserlen fanwl o amseroedd, dyddiadau a manylion penodol arolygon unigol. Mae nifer o resymau dros hyn, gan gynnwys:

- Bydd yr angen am rai mathau o arolygon ond yn cael ei nodi ar ôl arolwg cychwynnol, er enghraifft pan fydd arolwg cychwynnol yn nodi presenoldeb rhywogaethau neu gynefinoedd penodol sy'n gofyn am ymchwiliadau mwy arbenigol;
- Arolygon sy'n sensitif i amodau tywydd (fel y gall fod angen eu haildrefnu ar fyr rybudd pan fo'r tywydd yn anaddas);
- Argaeledd arolygwyr (a all gael ei ddylanwadu gan gyfradd cynnydd mewn mannau eraill yn yr ymgyrch arolygu).

5.3) Mewn perthynas â rhai rhywogaethau a chynefinoedd, er mwyn cael eu hystyried yn dechnegol gadarn, mae'n angenrheidiol eu bod yn cael eu cynnal mewn tymhorau penodol neu mewn cyfnodau penodol eraill o fewn blwyddyn.

5.4) Yn yr un modd, mae'n ofynnol cynnal rhai arolygon ar adegau o'r dydd neu'r nos sydd y tu allan i oriau gwaith arferol (er enghraifft, arolygon gwawr/gyfnos ar gyfer rhywogaethau penodol) neu sy'n gofyn am fonitro dros gyfnod penodol o amser, neu ar gyfnodau penodol.

5.5) Gan ystyried yr anawsterau hyn a'r angen i gydlynu ymgyrchoedd arolygu ar draws y prosiect ac yn unol â thelerau trwyddedau (lle maent wedi'u cytuno), mae angen rhywfaint o hyblygrwydd rhesymol. Rhaid cydbwyso'r angen hwn am hyblygrwydd gan ystyried y posibilrwydd o darfu ar berchnogion a deiliaid y tir sydd i'w arolygu.

5.6) Er mwyn ceisio sicrhau cydbwysedd priodol, dylai'r Rheolwr Tir gadw at y canllawiau canlynol:

1. Oni bai bod ymrwymiadau wedi'u gwneud i roi cyfnod rhybudd ymlaen llaw hwy, dylai'r Rheolwr Tir sicrhau bod y person(au) y deellir eu bod mewn rheolaeth ar y tir yn cael o leiaf 14 diwrnod o rybudd ymlaen llaw cyn mynd i mewn i'r tir. Os nad yw'n ymarferol rhoi 14 diwrnod o rybudd ymlaen llaw (er enghraifft, os yw dyddiad yr arolwg arfaethedig yn disgyn yn fuan ar ôl diwedd y cyfnod statudol o 14 diwrnod yn dilyn cyflwyno'r hysbysiad adran 174), dylai'r hysbysiad gynnwys cymaint o

wybodaeth ag sy'n rhesymol ymarferol o dan yr amgylchiadau. Dylai'r llythyr eglurhaol gadarnhau na fydd rhybudd ychwanegol o 14 diwrnod yn cael ei roi a dylai'r llythyr eglurhaol hefyd gadarnhau y rhoddir tua 48 awr o rybudd ymlaen llaw yn unol â phwynt 5 isod.

2. Dylai'r rhybudd ymlaen llaw roi arwydd o bryd y cynigir mynd i mewn i'r tir, ei hyd disgwyliedig a natur y gweithgarwch arolygu sy'n cael ei gynnal. Oherwydd yr ansicrwydd a nodir uchod, efallai y bydd angen rhoi rhybudd ymlaen llaw o "ffenestr" o fewn pa un y disgwylir y bydd y mynediad yn digwydd. Dylai'r Rheolwr Tir ymdrechu i sicrhau bod unrhyw ffenestr o'r fath a roddir yn gymesur â graddau'r ansicrwydd. Lle disgwylir cynnal arolygon y tu allan i oriau 07:00–19:00 neu ar benwythnosau neu Wyliau Banc, dylai'r rhybudd ymlaen llaw wneud hyn yn glir.

3. Dylai'r rhybudd ymlaen llaw wahodd y person(au) y deellir eu bod yn berchennog neu'r person(au) sy'n ymddangos eu bod mewn rheolaeth ar y tir i ddarparu unrhyw wybodaeth a allai fod yn berthnasol i gynnal yr arolygon, megis presenoldeb unrhyw dda byw neu bryderon bioddiogelwch penodol eraill, presenoldeb unrhyw beryglon ar y tir, a'u dewisiadau o ran parcio cerbydau.

4. Dylai'r Rheolwr Tir, ar y cyd â'r Asiantau Tir, ystyried yn gydwybodol unrhyw geisiadau rhesymol a wneir gan y person(au) sydd mewn rheolaeth ar y tir, ac y dylent wneud ymdrechion rhesymol i ddiwallu'r rhain lle bo hynny'n ymarferol heb effeithio'n ormodol ar redeg yr ymgyrch arolygu yn effeithlon ac yn brydlon. Dylai unrhyw drefniadau o'r fath a gytunir gael eu cofnodi a'u cyfathrebu i'r Asiantau Tir a'r personau a awdurdodir i gymryd mynediad. Yn benodol, dylai'r Rheolwr Tir a'r Asiantau Tir roi sylw arbennig i "Bolisi Person Bregus" GGC.

5. Dylai'r rhybudd ymlaen llaw gael ei ddilyn tua 48 awr cyn y dyddiad mynediad arfaethedig er mwyn rhoi diweddariad ynghylch y mynediad arfaethedig.

6. Mater i'r Rheolwr Tir, ar y cyd â'r Asiantau Tir, yw penderfynu ar y modd y dylid rhoi'r rhybudd ymlaen llaw a'r cadarnhad dilynol. Dylai hyn adlewyrchu dewisiadau cyfathrebu'r person(au) sydd mewn rheolaeth ar y tir, a gallai gymryd ffurf llythyr, e-bost neu alwad ffôn neu unrhyw ddull arall a ystyrir yn briodol o dan yr amgylchiadau. Rhaid i'r Rheolwr Tir a'r asiant tir penodedig sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw o'r cyfathrebiadau hyn ac o unrhyw ymatebion a dderbynnir.

7. Dylai pob gohebiaeth, gan gynnwys ymdrechion aflwyddiannus i gysylltu ag unrhyw Berchennog neu berson(au) sy'n ymddangos i'r Rheolwr Tir eu bod mewn rheolaeth ar y tir, gael ei chofnodi gan asiant tir GGC mewn fformat diogel a darllenadwy. Rhaid hefyd i unrhyw olrheiniwyr mynediad tir penodol i'r cynllun gael eu cadw'n gyfredol. Rhaid i'r olrheiniwyr hyn gofnodi unrhyw ofynion mynediad

penodol a rhesymol y gofynnir amdanynt gan y tirfeddiannwr, a fydd wedyn yn cael eu trosglwyddo i'r contractwyr awdurdodedig perthnasol.

8. Dylai Rheolwyr Tir a'r Asiantau Tir arfer gofal arbennig lle mae cyfnod sylweddol o amser wedi mynd heibio ers cyflwyno hysbysiad ffurfiol. Cyn i amgylchiadau o'r fath godi, dylai'r Rheolwr Tir a'r Uwch Reolwyr ystyried a fyddai'n fwy priodol cyhoeddi hysbysiad statudol newydd yn lle hynny.

9. Dylid osgoi, lle bo'n bosibl, gynnal arolygon y tu allan i oriau 07:00–19:00, neu ar benwythnosau neu Wyliau Banc oni bai bod hynny'n angenrheidiol gyda chyfiawnhad cryf.

6.0 Dogfennau ac Offer i'w Dal ar y Safle

6.1) Mae sawl dogfen y mae'n ofynnol i bob aelod o bersonél eu cadw'n hawdd eu cyrraedd i'w cyflwyno ar gais. Y rhain yw:

1. Ffurf o ddull adnabod sy'n dangos eu henw ac enw'r Contractwr Awdurdodedig y maent yn gweithredu ar ei ran
2. Digon o gopïau o'r "Hysbysiad o Bwerau a Hawliau" i'w rhoi i'r deiliaid neu i'w gadael mewn man amlwg ar y tir
3. Tystiolaeth o awdurdod GGC i gynnal yr arolwg
4. Copi o'r rhestr o Gontractwyr Awdurdodedig
5. Copi o'r Protocol Bioddiogelwch cyfredol
6. Offer bioddiogelwch priodol
7. Copi o'r wybodaeth berthnasol sy'n nodi manylion yswiriant GGC
8. Os yw defnyddio grym rhesymol wedi'i awdurdodi drwy warant, copi o'r warant berthnasol
9. Unrhyw offer neu ddogfennaeth arall yn ôl gofynion y Rheolwr Tir.

7.0 Ymddygiad ar y Safle

7.1) Mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r amgylchiadau y mae mynediad i dir trydydd parti yn cael ei gymryd ynddynt. Gall arfer pwerau statudol fod yn brofiad emosiynol i berchnogion a deiliaid y tir, a dylai personél ymddwyn mewn modd sensitif a phroffesiynol.

7.2) Ystyriwch a oes angen siaradwr Cymraeg i gefnogi trafodaethau. Os yw'r tirfeddiannwr neu'r person sydd mewn rheolaeth ar y tir wedi nodi eu bod yn dymuno siarad

Cymraeg, dylid darparu ar gyfer hynny, lle bo'n ymarferol ac yn briodol o dan yr amgylchiadau, gan ystyried cyngor Swyddog Cyswllt Bregusrwydd y prosiect.

7.3) Ni ddylai fod mwy o bersonél yn bresennol nag sy'n rhesymol angenrheidiol ar gyfer yr arolwg. Yn gyffredinol, mae hyn yn cael ei ystyried fel y tîm arolygu ynghyd â dim mwy na dau asiant tir sy'n bresennol i gyfathrebu â thirfeddianwyr ac i gynorthwyo'r Rheolwr Tir i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau GGC yn cael eu dilyn.

7.4) Pan fo pwerau mynediad yn cael eu harfer heb ganiatâd y PIL, dylai Contractwr Awdurdodedig neu'r asiant tir penodedig adnabod eu hunain yn glir i ddeiliaid y tir (lle bo'n berthnasol) drwy ddangos eu hawdurdodiad a'u dull adnabod ffurfiol (ac eithrio mewn sefyllfaoedd lle gallai gwneud hynny beryglu diogelwch y Contractwr Awdurdodedig neu lle na fyddai'n briodol o ystyried Polisi Person Bregus GGC, yn unol â chyngor y Rheolwr Tir gyda chymorth yr Asiantau Tir), ac egluro'n glir ddiben yr ymweliad.

7.5) Gall y tirfeddiannwr neu'r deiliad fynd gyda'r Contractwyr Awdurdodedig yn ystod yr ymweliad, os nad yw hynny, ym marn y Contractwr Awdurdodedig, yn ymyrryd â dibenion yr ymweliad. Os yw Contractwr Awdurdodedig yn gofyn i dirfeddiannwr/deiliad beidio â mynd gyda nhw yn ystod yr ymweliad, dylai roi rhesymau clir dros hynny, er enghraifft materion iechyd a diogelwch.

7.6) Pan ofynnir iddynt wneud hynny, dylai Contractwyr Awdurdodedig:

1. Rhoi ei enw a enw ei sefydliad
2. Darparu cyfeiriad cyswllt swyddogol a rhif ffôn
3. Darparu tystiolaeth bod y Contractwr Awdurdodedig wedi cael awdurdod gan GGC i gynnal yr arolwg
4. Darparu'r dogfennau a grybwyllir uchod o dan y pennawd "dogfennau ac offer i'w dal ar y safle" i'w harchwilio

7.7) Wrth arfer pwerau, rhaid i Gontractwr Awdurdodedig:

1. Dim ond cynnal y gweithgareddau ar y tir y mae wedi'i awdurdodi gan GGC i'w cynnal
2. Ymddwyn mewn modd proffesiynol a chwrtais
3. Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol GGC, gan roi sylw arbennig i'r Protocol Bioddiogelwch, y Protocol Personél Bregus, a'r Protocol Arolygon – Safleoedd a Rhywogaethau Gwarchodedig
4. Ystyried iechyd a diogelwch perchnogion a deiliaid y tir ac unrhyw ymwelwyr cyfreithlon, personél y Contractwr Awdurdodedig, ac, lle bo'n berthnasol, y cyhoedd yn ehangach

5. Ymddwyn mewn modd nad yw'n achosi niwed diangen i eiddo, da byw, bywyd gwyllt na bioamrywiaeth
6. Os yw'r tir yn wag neu os nad yw'r deiliad yn bresennol pan eir i mewn iddo, rhaid i'r Contractwr Awdurdodedig sicrhau ei fod yn cael ei adael yr un mor ddiogel rhag tresmaswyr ag yr oedd pan aethpwyd i mewn iddo
7. Darparu i'r personau sy'n bresennol ar y tir gopi o'r Hysbysiad o Bwerau a Hawliau, neu os nad oes unrhyw bersonau yn bresennol, gadael copi mewn man amlwg ar y tir

7.8) Rhaid i'r Rheolwr Tir, gan weithio gyda'r Asiantau Tir penodedig a'r Contractwyr Awdurdodedig, gadw cofnod o bob mynediad i dir a wneir o dan y pŵer statudol. Rhaid i hyn gynnwys:

1. Gwybodaeth i adnabod y tir y aethpwyd i mewn iddo;
2. Y dyddiad a hyd yr amser y cafodd y pwerau eu harfer;
3. Hunaniaeth y personél a aeth i mewn i'r tir;
4. Crynodeb o'r arolygon a gynhaliwyd ynghyd â chofnod o unrhyw ryngweithiadau â phobl oedd yn meddiannu neu fel arall yn bresennol ar y tir;
5. Os aethpwyd i mewn i'r tir yn unol â gwarant, manylion y warant honno.

7.9) Oni bai y byddai cymryd camau o'r fath yn rhwystro diben yr ymweliad, wrth arfer pwerau i fynd i mewn i safleoedd busnes dylai Contractwyr Awdurdodedig, lle bo hynny'n berthnasol:

1. Ceisio lleihau'r potensial i achosi niwed i enw da busnesau, yn enwedig pan fo gweithrediadau'n amlwg iawn, er enghraifft yn ystod oriau masnachu prysur, a all godi pryderon ymhlith cwsmeriaid.
2. Rhoi sylw i allu busnesau i barhau â gweithrediadau masnachu cyfreithlon a cheisio achosi cyn lleied â phosibl o darfu ar weithrediad cyfreithlon y busnes, lle bo hynny'n rhesymol ymarferol.

8.0 Cadw Cofnodion

8.1) Rhaid i bob cofnod gofynnol gael ei gynnal mewn modd proffesiynol, cywir a chyfredol, a'u storio o fewn system rhannu ffeiliau GGC yn unol â'r gweithdrefnau prosiect y cytunwyd arnynt. Bydd y Rheolwr Prosiect yn gyfrifol am sicrhau bod timau arolygu yn cydymffurfio â'r gofynion cadw cofnodion a bod yr holl gofnodion yn parhau'n gyflawn, yn gywir ac yn cael eu rheoli'n briodol drwy gydol cyfnod y prosiect.

9.0 Rhwystro Mynediad

9.1) Os bydd mynediad yn cael ei rwystro, fe'ch cynghorir i'r Contractwyr Awdurdodedig dynnu'n ôl o'r safle, cadw cofnodion cywir o'r amgylchiadau a arweiniodd at y rhwystr, a rhoi gwybod i'r Asiantau Tir penodedig a'r Rheolwr Tir (neu'r Heddlu os ystyrir bod hynny'n angenrheidiol).

9.2) Nodir enghreifftiau o rwystro mynediad isod, ond dylai personél ar y safle ddefnyddio eu barn broffesiynol i benderfynu ar y camau nesaf priodol, gan roi sylw arbennig i les y personél arolygu ac unrhyw berchnogion/deiliaid y tir neu bersonau eraill sy'n bresennol.

1. Rhwystr corfforol – gatiau wedi'u cloi, ffensio, rhwystrau cerbydol neu rwystrau corfforol eraill
2. Bygythiad i lechyd a Diogelwch tîm y safle – cynnydd mewn tensiwn, bygythiadau corfforol neu lafar, rhwystr dynol, presenoldeb anifeiliaid peryglus neu ymddygiad bygythiol arall

9.3) Unwaith y bydd y tîm wedi tynnu'n ôl o'r safle, bydd tîm y prosiect a'r Rheolwr Tir yn penderfynu ar y camau nesaf priodol.

9.4) **O dan unrhyw amgylchiadau ni ddylai unrhyw bersonél ddefnyddio unrhyw rym corfforol i gael mynediad i'r tir nac i aros ar y tir oni bai bod y person sy'n defnyddio grym rhesymol wedi'i awdurdodi i wneud hynny drwy warant.**

10.0 Gweithdrefn Gwarant

10.1) Mewn amgylchiadau lle mae mynediad i'r tir wedi'i rwystro, gall fod yn briodol i'r Rheolwr Tir wneud cais i'r Llys Ynadon am warant i awdurdodi defnyddio grym rhesymol.

10.2) Dylai'r Rheolwr Tir, gan weithio gyda'r Contractwr Awdurdodedig perthnasol, yr Asiantau Tir penodedig a'r cyflenwr cyfreithiol penodedig, adolygu amgylchiadau'r rhwystr a cheisio cymeradwyaeth y Cyfarwyddwr Prosiect cyn gwneud cais am warant.

11.0 Gweithdrefn Hawliadau

11.1) Os, o ganlyniad i'r mynediad ar gyfer yr arolwg, bydd tirfeddiannwr yn nodi difrod i'w dir neu'n dioddef colled y gellir ei phrofi, mae GGC yn croesawu cyflwyno hawliad am iawndal o dan adran 176 o Ddeddf Tai a Chynllunio 2016, sy'n nodi'r hawl i iawndal ar ôl mynd i mewn i dir.

11.2) Dylid cyflwyno hawliadau i'r Asiant Tir priodol gyda thystiolaeth ategol i gadarnhau'r hawliad. Mae GGC yn argymell penodi asiant tir annibynnol i weithredu ar ran y tirfeddiannwr, ac mae'n barod i dalu ffioedd proffesiynol rhesymol fel y nodir yn y ddogfen "Environmental And Engineering Surveys" sydd ar gael ar wefan GGC.

12.0 Cwynion

12.1) Mae'r Contractwyr Awdurdodedig sy'n cynnal arolygon ac yn cymryd mynediad wedi cael eu briffio ar ofynion y protocol hwn. Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch cydymffurfiaeth â'r safonau hyn a'u gweithredu, sicrhewch eich bod yn eu codi cyn gynted â phosibl gan ddefnyddio'r manylion canlynol: complaints@greengencymru.com. Dylech gynnwys manylion eich eiddo a'ch pryderon penodol mewn perthynas ag ymddygiad arolygwyr yn erbyn y gofynion a nodir yn y ddogfen hon.